**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL**
**11 GORFFENNAF 2019**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Iau, 11 Gorffennaf 2019

**YN BRESENNOL: Cynghorydd Clive Carver (Cadeirydd)**
Cynghorwyr: Haydn Bateman, Geoff Collett, Bob Connah, Paul Cunningham, Patrick Heesom, Paul Johnson, Richard Jones, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Aaron Shotton, Andy Williams ac Arnold Woolley

**DIRPRWY:** Cynghorydd: Hilary McGuill (ar gyfer Mared Eastwood)

**YMDDIHEURIADAU:** Cynghorydd Ian Roberts, Arweinydd ac Aelod Cabinet Addysg; Cynghorydd Billy Mullin, Aelod Cabinet dros Reoli Corfforaethol; a'r Cynghorydd Glyn Banks, Aelod Cabinet Cyllid

**CYFRANWYR:** Cynghorydd Carolyn Thomas (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Strydoedd a Chefn Gwlad), Prif Weithredwr; Prif Swyddog (Strydoedd a Chludiant), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Swyddog Gweithredol Busnes Corfforaethol a Chyfathrebu, Rheolwr Cyllid – Strategaeth Cyfrifyddu a Systemau, Rheolwr Cyllid – Rheolwr Cyfrifeg Dechnegol a Rheolwr Cynhyrchu Incwm a Marchnata

**HEFYD YN BRESENNOL:** Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 18. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Dim.

## 19. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2019.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

## 20. OLRHAIN GWEITHRED

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd yr adroddiad cynnydd ar gamau'n codi o gyfarfodydd blaenorol. Eglurodd y bydd camau sydd eto i'w penderfynu'n parhau ar yr adroddiad olrhain gweithred nes bod penderfyniad wedi'i wneud a'i adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at wahoddiad i gynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) fynychu cyfarfod gydag Aelodau a dywedodd y byddai'n cael ei gynnal yn ddiweddarach yn y flwyddyn yn hytrach na chyn y toriad ym mis Awst.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod y camau ar yr arfarniadau wedi'u dilyn ac y byddai'r camau ar Gynllun y Cyngor yn cael eu cwblhau erbyn diwedd Gorffennaf. Eglurodd y bydd Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2018/19 yn cael ei ystyried yng nghyfarfod y Cabinet ar 16 Gorffennaf, a'i gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor a gynhelir ym Medi. Hefyd dywedodd fod gwaith ar y gweill i adolygu a gwella lle y bo'n bosibl yr wybodaeth a ddarparwyd am adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma.

## 21. <u>RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL</u>

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol gyfredol i'w hystyried. Atgoffodd Aelodau, cyn dechrau'r cyfarfod nesaf, y byddai sesiwn briffio'n cael ei chynnal am 9.30am ar ffurf newydd adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw.

Yn ogystal â'r eitemau a fyddai'n cael eu hystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 19 Medi, cytunwyd y bydd diweddariad ar yr arfarniadau'n cael eu cynnwys yn adroddiad Chwarterol y Gweithlu a Chyflogaeth. Hefyd cytunwyd y byddai adroddiad ar Adroddiad Monitro Blynyddol yr Iaith Gymraeg 2018/19 yn cael ei ychwanegu at y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf ac yn ddiweddarach yr Adolygiad Actiwaraidd o Gronfa Bensiwn Clwyd.

Mewn ymateb i'r cwestiynau a godwyd gan y Cynghorydd Richard Jones ar ffurf newydd adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw, dywedodd swyddogion bod rhai addasiadau wedi'u gwneud i wella'r ffurf i helpu i ddeall yr wybodaeth yn yr adroddiad. Dywedodd y Cynghorydd Jones fod angen dangos yr amrywiannau. Dywedwyd wrth Aelodau y byddai manylion am ragolygon y prif orwariant ar Ofal Cymdeithasol a Strydoedd yn cael eu cynnwys yn adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw Misol 2019/20 i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf. Byddai'r swyddogion perthnasol hefyd yn bresennol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Patrick Heesom at yr adroddiad ar y Cylch Cynllunio Cyllid a Busnes a gyflwynwyd i gyfarfod o'r Pwyllgor ar 17 Ionawr 2019 a dywedodd fod angen atodi cyllidebau iddo.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

(a) Bod y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, fel y'i diwygiwyd, yn cael ei chymeradwyo; a

(b) Bod Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn cael eu hawdurdodi i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

**22. CYNLLUN Y CYNGOR 2019/20 RHAN 2**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad i gyflwyno Rhan 2 o Gynllun y Cyngor. Pwrpas hyn oedd rhannu cerrig milltir perfformiad a mesurau ar gyfer y flwyddyn a gwahodd adborth i'r Cabinet a fyddai'n ystyried y ddogfen yr wythnos ganlynol. Darparodd wybodaeth gefndir a chyd-destun. Roedd Rhan 1 o Gynllun y Cyngor wedi amlinellu bwriad y Cyngor, ac mae Rhan 2 yn cynnwys y mesurau perfformiad, y targedau a'r cerrig milltir ar gyfer mesur a gwerthuso'r hyn a gyflawnir.

Soniodd Swyddog Gweithredol Busnes Corfforaethol a Chyfathrebu am yr wybodaeth yn yr adroddiad. Roedd yr hyn oedd angen ei gyflawni yn ystod 2019/20 yn cael ei ddisgrifio'n glir yn Rhan 1 o Gynllun y Cyngor. Roedd Rhan 2 yn sicrhau y gellid monitro cynnydd ac olrhain y cyflawniadau hynny. Y ddau fath o fesurau a fyddai'n cael eu defnyddio fyddai cerrig milltir ansoddol, pan oedd cynlluniau neu strategaethau i'w cyflawni, a mesurau mheintio a rhifiadol ar gyfer y targedau i'w cyflawni. Roedd Rhan 2 o Gynllun y Cyngor yn nodi dosbarthiad yr holl fesurau rhifiadol. Roedd cerrig milltir neu fesurau wedi'u gosod i fonitro cynnydd yn erbyn bob gweithgaredd neu gynllun. Roedd y risgiau i'w rheoli a'u lliniaru ar hyd yn flwyddyn wrthi'n cael eu hystyried a byddant yn cael sylw yn yr adroddiad monitro cyntaf. Dywedodd Swyddog Gweithredol Busnes Corfforaethol a Chyfathrebu y byddai data cymharu ag awdurdodau eraill yng Nghymru ar gael i gymharu ein sefyllfa yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Patrick Heesom at yr arddodiad Cylch Cyllid a Chynllunio Busnes a gyflwynwyd i gyfarfod o'r Pwyllgor ar 17 Ionawr 2019, a dywedodd fod y mesurau wedi'u nodi'n dda o ran y portffolio. Dywedodd ei fod yn cefnogi'r adroddiad ond soniodd fod angen i Gynllun y Cyngor gael mwy o ffocws a chael ei flaenoriaethu. Cyfeiriodd at y Cyngor Uchelgeisiol a dwedodd fod diffygion yn y ffordd yr oedd y Cyngor yn gwneud cynnydd gyda'r rhan honno o'r Cynllun. Mynegodd bryderon ynghylch y ffordd yr oedd isadeiledd priffyrdd yn cael ei reoli.

Mewn ymateb i'r sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd Heesom ar y rhwydwaith cludiant, dywedodd y Cynghorydd Carolyn Thomas fod yr Awdurdod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru (LlC) a Thrafnidiaeth Cymru. Gwahoddwyd y Cynghorydd Heesom i gyfarfod i drafod ei bryderon gyda'r Prif Swyddog (Strydoedd a Chludiant) a hithau.

Cydnabu'r Prif Weithredwr y pryderon a godwyd gan y Cynghorydd Heesom ynghylch rôl gyfyngedig y Cyngor mewn datblygiad economaidd ond pwysleisiodd mai dim ond y gwasanaethau hynny oedd yn swyddogaeth i'r Cyngor y gallai'r Cyngor eu cynnwys. Aeth ymlaen i ddweud bod popeth oedd yn y Cynllun yn cael blaenoriaeth gyfartal ac mai ein cydgyfrifoldeb oedd sicrhau'r cerrig milltir a'r mesurau.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Paul Johnson at Gynllun y Cyngor (Rhan 2) 2019/20, oedd wedi'i atodi i'r adroddiad, a gofynnodd beth oedd nodau ac amcanion y fframwaith gwerth cymdeithasol. Dywedodd y gallai'r fframwaith gwerth cymdeithasol olygu nifer o bethau i wahanol bobl. Dywedodd ei fod yn rhan bwysig o Gynllun y Cyngor a gwnaeth gais i'r gwaith ar werth cymdeithasol gael

ei gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol er mwyn ei ystyried a'i ddatblygu. Hefyd awgrymodd sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen i ddatblygu hyn, neu gynnal gweithdy i'r holl Aelodau.

Ymatebodd Swyddogion i'r sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd Johnson, gan gydnabod y pwyntiau ychwanegol a godwyd o ran caffael. Croesawodd y Prif Weithredwr yr awgrym i gynnal gweithdy. Soniodd y Prif Weithredwr a'r Cynghorydd Carolyn Thomas am faint o waith a wnaed ar werth cymdeithasol gan y Cyngor, gan ddyfynnu manteision contractau mawr, cludiant cyhoeddus chynlluniau chwarae fel enghreifftiau.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Richard Jones at yr angen i roi gwell eglurhad yn yr adroddiad ynghylch pam/sut roedd y Cyngor yn bwriadu rheoli'r gostyngiad mewn meysydd gwasanaeth. Eglurodd y Prif Weithredwr nad oedd bwriad i leihau gwasanaethau presennol, ond, roedd angen trafod y safonau disgwyliedig mewn gwasanaethau a'r gofynion cyllidebol i'w cyflawni.

Dywedodd y Cynghorydd Richard Jones y byddai o gymorth pe byddai copi o Gynllun y Cyngor yn cael ei atodi i adroddiadau yn y dyfodol. Eglurodd y Prif Weithredwr fod matrics gyda'r holl wybodaeth berthnasol wedi'i rannu gydag Aelodau, ond cafwyd ymateb gwael ynglŷn â'r wybodaeth am berfformiad oedd ei hangen gan Aelodau.

Yn ystod y drafodaeth gofynnodd y Cynghorydd Jones am eglurhad pellach ynghylch yr wybodaeth yn yr atodiad i'r adroddiad o dan yr is-flaenoriaethau canlynol: gwybodaeth sylfaenol yn ymwneud â Rhwydwaith Priffyrdd (tudalen 76), Bod yn Barod ar gyfer Gwaith (tudalen 53), Rhaglen Ariannu Hyblyg (tudalen 52), data sylfaenol Credyd Cynhwysol/Diwygio Lles (tudalen 51), Anghenion Grwpiau Bregus o ran Tai (tudalen 46) a Byw'n Annibynnol (tudalen 33).

Dywedodd y Cynghorydd Aaron Shotton ei bod yn bwysig bod gwerth cymdeithasol a gwaith oedd ar y gweill yn Holway fel prosiect peilot yn cael eifesur. Hefyd dywedodd fod angen darbwyllo partneriaid mewn sectorau eraill o'r gwaith gwerthfawr oedd yn cael ei wneud. Cyfeiriodd at yr awgrym i gynnal gweithdy a gofynnodd a oedd angen ystyried tystiolaeth o'r hyn oedd yn cael ei wneud yng Nghymru. Cyfeiriodd at bolisi LlC ar gaffael. Cytunwyd i gysylltu â Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth maes o law i'w hysbysu o waith y Cyngor ar werth cymdeithasol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Hilary McGuill at dudalen 44 o'r adroddiad a gofynnodd a oedd yn bosibl i ffigwr targed 2019/20 gael ei ailystyried oherwydd ei bod yn teimlo ei fod yn rhy isel. Hefyd cyfeiriodd at dudalen 53 o'r adroddiad ac awgrymodd newid geiriad y mesurau cyflawni i 'Nifer yr unigolion ag angen cymorth arnynt drwy'r gwasanaeth mentora sy'n mynd i fyd cyflogaeth, dysgu neu wirfoddoli'.

Hefyd dywedodd y Cynghorydd McGuill fod angen "buddsoddi i arbed" a gofynnodd a oedd yn bosibl ystyried prynu offer newydd a fyddai'n helpu i sicrhau arbedion i'r Cyngor o ran cost uchel trwsio tyllau ar wyneb ffyrdd yn y dyfodol. Eglurodd y Cynghorydd Carolyn Thomas nad oedd arian cyfalaf ar gael i brynu offer ond rhoddodd sicrwydd bod mwy o waith trwsio wedi'i wneud eleni.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cefnogi Rhan 2 o Gynllun y Cyngor – ar gerrig milltir perfformiad a mesurau ar gyfer y flwyddyn, yn amodol ar egluro manylion;

(b) Cynnal gweithdy i'r holl aelodau ar Werthoedd Cymdeithasol maes o law; a

(c) Chysylltu â Lee Waters, AC, Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth i'w hysbysu o waith y Cyngor ar werth cymdeithasol pan oedd y strategaeth yn barod.

## 23. FFIOEDD A THALIADAU

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad i gyflwyno polisi corfforaethol cyflawn ac wedi'i ddiweddaru ar gyfer ffioedd a chostau a gwahodd adborth i'r Cabinet a fyddai'n cael ei wahodd i gymeradwyo'r polisi'n ddiweddarach yn y mis. Dywedodd fod y Polisi Cynhyrchu incwm, yn cynnwys ffioedd a chostau, a'r ffrydiau incwm newydd a nodwyd yn yr adroddiad yn rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Tynnodd sylw at ganlyniad yr adolygiad blynyddol o ffioedd a chostau oedd wedi'i atodi i'r adroddiad. Ar gyfer bob cost dangoswyd y graddau yr oedd y gost lawn yn cael ei hadennill, ond mae angen gwaith pellach ar hyn o hyd. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnig dull o fynegeio'r holl ffioedd a chostau'n flynyddol. Gwahoddodd y Prif Weithredwr y Rheolwr Cynhyrchu Incwm a Marchnata i gyflwyno manylion yr adroddiad.

Cyfeiriodd y Rheolwr Cynhyrchu Incwm a Marchnata at y prif ystyriaethau, fel y manylir yn yr adroddiad. Eglurodd fod cynhyrchu incwm ychwanegol o ffioedd a chostau, ynghyd â phrosiectau penodol i ystyried posibilrwydd ffrydiau incwm newydd, yn ddau ateb oedd ar gael i'r Cyngor gyfrannu at y diffyg yn y gyllideb. Nid oedd y targed o ran incwm ar gyfer 2018/19 wedi'i gyrraedd yn llawn ac roedd tua £170k o incwm ychwanegol i'w gynhyrchu i gyrraedd targed 2019/20. Dywedodd ei fod yn bwysig cadw'r ffocws ar gynhyrchu incwm a'r ffioedd a'r costau hynny y gellid eu hadolygu, neu eu cyflwyno, fel rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. O'r 605 o ffioedd/costau a restrir yn atodiad A o'r adroddiad, dywedodd fod 36% ohonynt yn statudol a bod gan yr Awdurdod ddisgresiwn cyfyngedig, neu ddim o gwbl, o ran gosod y costau, a bod 64% yn ddewisol gyda mwy o le i ddisgresiwn lleol wrth osod y pris. Yn ogystal ag incwm o ffioedd a chostau roedd nifer o brosiectau incwm wedi'u nodi i'w hystyried ymhellach. Roedd trosolwg o'r prosiectau hyn a'r dyddiad dechrau dangosol hefyd wedi'u hatodi i'r adroddiad.

Dywedodd y Rheolwr Cynhyrchu Incwm a Marchnata mai'r bwriad oedd goruchwylio'r broses o adolygu ffioedd a chostau'n fewnol, a gweithredu unrhyw newidiadau o 1 Hydref bob blwyddyn, yn dilyn adroddiad i'r Cabinet ym mis Gorffennaf.

Dywedodd y Prif Swyddog (Strydoedd a Chludiant) y byddai adroddiad wedi'i ddiweddaru ar ffioedd a chostau'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor bob blwyddyn i'w adolygu.

Yn ystod y drafodaeth rhoddodd Swyddogion ymateb i’r cwestiynau a godwyd gan Aelodau ynglŷn â’r costau ar gyfer gwasanaethau o dan Rheoli Pla (gan ddyfynnu’r gwahaniaeth mewn costau ar gyfer gwenyn a gwenyn meirch er enghraifft), parcio ceir, a llogi caeau Wepre a Bwcle. Hefyd holodd Aelodau ynghylch y costau’n ymwneud â chylchfannau a gofynnwyd am eglurhad ynghylch y costau ar gyfer noddi cylchfannau. Cytunodd y Prif Swyddog i roi manylion pellach i’r Pwyllgor ynglŷn â chostau’n ymwneud â chylchfannau a llogi caeau Wepre a Bwcle.

Yn gynharach yn yr wythnos bu pryderon nad oedd y cynnydd yng nghostau gwastraff gardd wedi eu rhoi gerbron Bwyllgor Trosolwg a Chraffu’r Amgylchedd. Eglurodd y Prif Weithredwr fod yr egwyddor o gostau eisoes wedi’i gymeradwyo a’i fod o fewn cylch gorchwyl Adnoddau Corfforaethol i awgrymu amrywio costau fel rhan o bolisi ariannol.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi’r polisi ac amserlen ffioedd a chostau i’w chyflwyno i’r Cabinet a fydd yn cael ei argymell i fabwysiadu’r polisi yn eu cyfarfod ar 16 Gorffennaf 2019;

(b) Bod y Pwyllgor yn nodi'r gwaith pellach y mae angen ei wneud i adennill y gost yn llawn, a/neu gyfraddau cyffelyb y farchnad, lle y bo’n bosibl/caniateir gwneud hynny;

(c) Bod y Pwyllgor yn cefnogi adolygiad parhaus o’r Polisi Cynhyrchu Incwm i sicrhau cysondeb o ran costau ac adennill costau; a

(d) Bod y pwyllgor yn nodi’r prosiectau incwm ychwanegol a nodwyd yn Atodiad B sydd wrthi’n cael eu datblygu

## 24. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG (MTFS) A GWAITH Y GRWP TRAWSBLEIDIOL AR GYLLID LLYWODRAETH LEOL

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ddiweddariad llafar ar sefyllfa’r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS), y sefyllfa genedlaethol ar gyllidebau, a chwblhau gwaith y Gweithgor Trawsbleidiol ar Gyllid Llywodraeth Leol. Rhoddodd gyflwyniad ar y Gweithgor Trawsbleidiol ar Gyllid Llywodraeth Leol oedd yn cynnwys y pwyntiau canlynol:

- ein cyd-destun
- pwrpas y Grŵp
- gwaith hyd yma
- adnoddau ar gael
- sefyllfa gyffredinol
- dadlau’r achos
- crynodeb o bwysau ariannol
- mynegeio ar gyfer chwyddiant - ysgolion
- mynegeio ar gyfer chwyddiant – ar wahân i ysgolion
- proses gyllidebol
- camau nesaf yn syth

Yn ystod y cyflwyniad cyfeiriodd y Prif Weithredwr at adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru '*Wedi cyrraedd y pwynt tyngedfennol'* gan awgrymu y byddai o ddiddordeb i Aelodau. Cytunwyd i gylchredeg yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor ar ôl y cyfarfod.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Aaron Shotton at waith y Gweithgor Trawsbleidiol o ran y fformwla ariannu a gofynnodd a oedd cyfle i edrych ar ddyrannu cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol ar draws awdurdodau lleol yn seiliedig ar bwysoliad ac amddifadedd. Cydnabu'r Prif Weithredwr y pwyntiau a godwyd gan y Cynghorydd Shotton a chyfeiriodd at yr angen i ystyried y gyllideb yn gyffredinol. Dywedodd bod cyfeiriad wedi bod yn y Gweithgor Trawsbleidiol at fwy o resymeg ynglŷn â chostau sylfaenol ar gyfer ysgolion. Dywedodd Carolyn Thomas fod rhai o'r ysgolion yn Sir y Fflint ar y lefelau ariannu isaf yng Nghymru ac ailadroddodd ei bod yn bwysig i ysgolion gael llinell sylfaenol ariannol wrth symud ymlaen. Dywedodd y byddai'n dadlau'r achos dros gyllid i Addysg yng nghyfarfod Pwyllgor Gwaith CLlLC yr wythnos nesaf.

Dywedodd y Cynghorydd Patrick Heesom, yn ei farn ef fod angen persbectif gwahanol a dull o bwysoli neu flaenoriaethu pwysau penodol nad oedd yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd. Dywedodd fod ganddo bryderon nad oedd dadgyfuno yn yr Awdurdod o bosibl yn seiliedig ar newid ac nad oedd y ffordd yr oedd rhai gwasanaethau wedi dadgyfuno o gymorth. Hefyd dywedodd bod angen mwy o ymwybyddiaeth o'r gwariant mewn portffolios. Croesawodd waith y Gweithgor Trawsbleidiol ond dywedodd fod yn rhaid i'r Awdurdod fod yn fwy democrataidd a gweithio o'r canol wrth ddadgyfuno gwasanaethau.

**<u>PENDERFYNWYD</u>**:

Nodi'r diweddariad ar waith y Gweithgor Trawsbleidiol ar Gyllid Llywodraeth Leol a'r cyflwyniad.

## 25. <u>CYLLIDEBAU CANOLOG A CHYLLID CORFFORAETHOL</u>

Cyflwynodd Rheolwr Cyllid Corfforaethol adroddiad yn darparu gwybodaeth ac eglurhad am y penawdau cyllideb penodol oedd yn y cyllidebau canolog a chorfforaethol, yn unol â'r cais yn y cyfarfod blaenorol. Roedd y Gyllideb Ganolog a Chorfforaethol ar gyfer 2019/20 yn £23.498m ac yn 9% o gyllideb gyffredinol Cronfa'r Cyngor o £264m. Yn gyffredinol roedd y Gyllideb Cyllid Canolog a Chorfforaethol yn cynnwys costau canolog y sefydliad canolog ar gyfer y Cyngor nad oedd i'w priodoli'n uniongyrchol i bortffolios a gwasanaethau unigol.

Darparodd Rheolwr Cyllid Corfforaethol adroddiad ar y prif ystyriaethau, fel y manylir yn yr adroddiad. Dywedodd fod yr adroddiad yn cynnwys dadansoddiad manwl o'r maes cyllidebol hwn yn seiliedig ar gyllideb 2019/20 o £23.498m. Hefyd roedd yr adroddiad yn rhoi cefndir pellach i'r holl Aelodau cyn dechrau monitro'r gyllideb refeniw ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20 ac fel rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

Bod y pwyllgor yn nodi'r esboniadau a roddwyd.

**26.** **MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2018/19 (ALLDRO) A MONITRO RHAGLEN GYFALAF 2018/19 (ALLDRO)**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid, Strategaeth Ariannol ac Yswiriant adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw 2018/19 (Ffigurau terfynol) i Aelodau a chyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol Adroddiad Monitro'r Rhaglen Gyfalaf 2018/19 (Ffigurau terfynol). Byddai'r ddau adroddiad yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet ar 16 Gorffennaf, ac roeddent wedi'u hatodi i'r adroddiad.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Richard Jones at Adroddiad Monitro'r Rhaglen Gyfalaf 2018/19 (Ffigurau terfynol) a chyfeiriodd at gostau parcio ceir. Dywedodd fod angen nodi a gwahaniaethu rhwng cyllideb a gwasanaeth craidd. Cyfeiriodd at feysydd o orwariant a dywedodd y dylai'r Cyngor edrych ymlaen ac nid yn ôl i leihau unrhyw orwariant posibl.

**PENDERFYNWYD**:

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw 2018/19 (Ffigurau terfynol) a chadarnhau nad oes unrhyw faterion penodol y mae'n dymuno eu codi yn y Cabinet; a

(b) Bod y Pwyllgor yn nodi Adroddiad Monitro'r Rhaglen Gyfalaf 2018/19 (Ffigurau terfynol) a chadarnhau nad oes unrhyw faterion penodol y mae'n dymuno eu codi yn y Cabinet.

**27.** **2019/20 MONITRO CYLLIDEB REFENIW (INTERIM)**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid, Strategaeth Ariannol ac Yswiriant adroddiad i ddarparu sefyllfa monitro'r gyllideb dros dro o fewn y flwyddyn ar gyfer 2019/20 ar gyfer Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrifi Refeniw Tai. Rhoddodd wybodaeth gefndir ac eglurodd mai'r adroddiad dros dro oedd yr adroddiad monitro'r gyllideb refeniw cyntaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/20. Roedd yr adroddiad yn adroddiad eithrio ar amrywiannau sylweddol a allai effeithio ar y sefyllfa ariannol yn 2019/20 a chynnydd o ran cyflawni arbedion effeithlonrwydd a gynlluniwyd yn erbyn y targedau a osodwyd ar gyfer y flwyddyn. Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd effaith net y risgiau sy'n dod i'r amlwg a'r amrywiannau fel y manylir yn yr adroddiad, £3.101m yn uwch na'r gyllideb a gynlluniwyd. Roedd y ffigur hwn yn seiliedig ac amrywiannau sylweddol hysbys o dros £0.100m Byddai hyn yn agored i newid yn ystod y flwyddyn.

Cyfeiriodd y Rheolwr Cyllid at y prif bwyntiau, fel y manylir yn yr adroddiad, a chyfeiriodd at yr arbedion effeithlonrwydd a gyflawnwyd, sefyllfa'r gyllideb o fewn y flwyddyn, a chronfeydd wrth gefn heb eu clustnodi. Byddai meysydd oedd yn cael eu hystyried yn risg uchel o ran ansefydlogrwydd ariannol yn cael eu hadolygu fel rhan o'r broses fonitro fisol a'r oblygiadau'n cael eu hystyried fel rhan o'r rhagolygon yn y tymor canolig. Soniodd y Prif Weithredwr yn eithaf manwl am feysydd gorwariant a thanwariant.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Hilary McGuill at leoliadau y tu allan i'r sir a'r wybodaeth fod y rhagamcanion o orwario ar gyfer y gwasanaeth yn cynnwys costau lleoliadau allanol ar gyfer dros 150 o blant, rhai ohonynt o fewn ffin ddaearyddol

Sir y Fflint. Eglurodd y Prif Weithredwr y gellid diwallu anghenion addysgol rhai plant drwy ddarpariaeth leol, ond, mai dim ond trwy ddarpariaeth allanol y gellid diwallu anghenion addysgol a gofal cymdeithasol preswyl cymhleth nifer o blant.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Richard Jones at y gorwariant ar gostau parcio. Mynegodd bryderon ynglŷn â chostau parcio a dywedodd y gallent gadw pobl draw a lleihau'r nifer sy'n dod i rai ardaloedd. Cyfeiriodd at werth cymdeithasol pobl sy'n siopa mewn trefi a bod rhai ardaloedd yn cynhyrchu mwy o incwm na'r gost o gynnal y meysydd parcio yn yr ardal honno.

**PENDERFYNWYD**:

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi'r adroddiad ac yn hysbysu'r Cabinet y bydd y Pwyllgor, yng nghyfarfod mis Medi, yn rhoi sylw arbennig i'r rhagamcanion o orwario mewn gofal cymdeithasol a strydoedd; a

(b) Nodi y gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo trosglwyddo £0.471m o'r gyllideb o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol i gefnogi'r cyfleusterau gofal ychwanegol newydd.

**28. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD**

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 12.47pm)

…………………………
**Cadeirydd**